# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd y Santes Fair (Rhiwabon)

Stryd y Parc
Ffordd Owrtyn
Wrecsam
LL14 6LE

Dyddiad yr arolygiad:  Mehefin 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd y Santes Fair (Rhiwabon)

| | |
|---|---|
| Enw’r darparwr | Ysgol Gynradd y Santes Fair (Rhiwabon) |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Categori’r ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | Cyfrwng Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Yr Eglwys yng Nghymru |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 204 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 165 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 18 |
| Canran y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 22.9%) | 16.4% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 11.1%) | 3% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 0% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 3.0% |
| Dyddiad penodi’r pennaeth | 01/09/2013 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 10/10/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 23/06/2025 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: [fyysgolleol.llyw.cymru](fyysgolleol.llyw.cymru)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Crynodeb

Mae Ysgol Gynradd y Santes Fair yn darparu amgylchedd dysgu anogol ac ysgogol sy’n cefnogi lles disgyblion ac yn hyrwyddo chwilfrydedd ac ymgysylltiad yn effeithiol. Mae perthnasoedd cryf a pharchus rhwng staff a disgyblion yn cyfrannu at awyrgylch tawel a phwrpasol lle mae bron pob un o’r disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol ac yn ymddwyn yn eithriadol o dda.

Caiff cwricwlwm yr ysgol ei gynllunio’n ofalus i feithrin gwybodaeth, medrau a dealltwriaeth disgyblion dros gyfnod. Mae’n hyblyg ac yn ddifyr, ac yn cynnig cyfleoedd dysgu perthnasol a chreadigol. Mae llawer o athrawon yn annog disgyblion i fyfyrio ar eu dysgu, ac mae disgyblion hŷn yn defnyddio meini prawf llwyddiant yn fedrus i nodi cryfderau a meysydd i’w gwella. Mewn llawer o wersi, defnyddir holi yn effeithiol i gefnogi a herio disgyblion. Fodd bynnag, mewn ychydig o wersi, collir cyfleoedd i ddyfnhau dysgu, ac mae gorddefnydd o daflenni gwaith yn cyfyngu ar gynnydd disgyblion.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau siarad a gwrando cryf ac yn cyfathrebu’n hyderus. Maent yn ysgrifennu’n effeithiol ar draws ystod o gyd-destunau, ac erbyn Blwyddyn 6, mae’r rhan fwyaf ohonynt yn darllen yn rhugl, gan ddefnyddio ystod o strategaethau i gefnogi eu dysgu. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da mewn mathemateg ac yn cymhwyso medrau rhifedd yn dda mewn cyd-destunau dilys. Caiff medrau digidol eu datblygu’n bwrpasol, ac mae disgyblion yn defnyddio ystod o feddalwedd i gyflwyno a threfnu eu gwaith yn annibynnol.

Mae darpariaeth ar gyfer y disgyblion ieuengaf yn gryfder, gydag amgylcheddau wedi’u cynllunio’n dda sy’n hyrwyddo creadigrwydd, cydweithrediad a gwydnwch. Ar draws yr ysgol, mae cyfleoedd arweinyddiaeth fel Criw Cymraeg ac arweinwyr digidol yn helpu disgyblion i ddatblygu hyder ac ymdeimlad o reolaeth. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos brwdfrydedd dros ddysgu Cymraeg, ac fe gaiff disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol eu cynorthwyo’n effeithiol i gyflawni eu targedau.

Mae’r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref a strategol ac yn meithrin ethos cefnogol a chynhwysol. Mae staff yn gweithio’n dda fel tîm ac yn elwa ar ddysgu proffesiynol sy’n cefnogi gwelliant yr ysgol. Caiff llywodraethwyr a rhieni eu cynnwys yn weithredol ym mywyd yr ysgol, ac mae arweinwyr yn rheoli adnoddau’n dda i sicrhau tegwch a deilliannau cadarnhaol ar gyfer pob un o’r disgyblion, gan gynnwys y rhai o aelwydydd incwm isel.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

A1. Mynd i'r afael â'r anghysondeb mewn addysgu i sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn gwneud y cynnydd y dylent

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae staff yn Ysgol Gynradd y Santes Fair yn creu amgylchedd dysgu difyr ac ysgogol sy’n meithrin chwilfrydedd disgyblion ac yn cefnogi eu dysgu yn dda. Mae perthnasoedd cryf rhwng oedolion a disgyblion yn gryfder yn yr ysgol. Mae staff yn ymateb i anghenion lles unigol disgyblion gyda sensitifrwydd. Mae’r perthnasoedd gofalgar a pharchus a gaiff eu ffurfio yn helpu disgyblion i deimlo’n ddiogel a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi. O ganlyniad, mae bron pob un o’r disgyblion yn ymgysylltu’n arbennig o dda, yn dangos agweddau cadarnhaol a pharodrwydd i ddysgu. Maent yn ymddwyn yn eithriadol o dda, gan greu awyrgylch tawel a chynhyrchiol sy’n cefnogi dysgu effeithiol ar gyfer pob un o’r disgyblion mewn llawer o agweddau ar gwricwlwm yr ysgol.

### Ciplun 1: Meithrin meddyliau ifanc trwy amgylcheddau creadigol

Mae’r amgylchedd dysgu ar gyfer y disgyblion ieuengaf yn cynnwys cyfleoedd cyfoethog sy’n meithrin gwydnwch, cydweithrediad, a chwarae dychmygus. Mae ardaloedd wedi’u cynllunio’n dda fel y parth adeiladu, yr ardal chwarae anniben, a’r gornel ddarllen, yn cefnogi datblygiad corfforol, creadigrwydd a medrau cymdeithasol. Mae rhyngweithio pwrpasol ag oedolion yn ymestyn y dysgu ymhellach trwy holi ac ymgysylltu chwareus.

Ar draws yr ysgol, caiff diddordebau personol disgyblion eu hannog a’u dathlu, gan feithrin ymdeimlad o berthyn a diben. O oedran ifanc, mae disgyblion yn rhannu eu syniadau’n hyderus gyda chyfoedion ac oedolion anghyfarwydd. Wrth iddynt symud ymlaen trwy’r ysgol, maent yn cael eu hannog i ddilyn eu trywyddau ymholi eu hunain a dangos dyfalbarhad wrth gwblhau heriau. Mae’r pwyslais hwn ar ddysgu dan arweiniad disgyblion yn hyrwyddo annibyniaeth a hunangymhelliant yn effeithiol. Mae’r ysgol yn cynnig cyfleoedd niferus i ddisgyblion ymgymryd â rolau arwain. Er enghraifft, mae arweinwyr digidol yn cyfrannu’n gadarnhaol at fywyd yr ysgol, gan hyfforddi llywodraethwyr mewn defnyddio technoleg newydd. Mae’r cyfrifoldebau hyn yn helpu disgyblion i ddatblygu hyder, gwaith tîm, ac ymdeimlad o falchder yng nghymuned yr ysgol.

Caiff y cwricwlwm ei gynllunio’n ofalus i feithrin gwybodaeth, medrau a dealltwriaeth disgyblion dros gyfnod. Mae’n cynnig hyblygrwydd, gan alluogi athrawon i gynllunio ystod eang o brofiadau dysgu diddorol a pherthnasol sy’n ennyn diddordeb disgyblion ac yn eu cymell. Mae llawer o athrawon yn annog disgyblion i ddeall beth maent yn ei ddysgu, a sut, a sut i asesu eu dysgu eu hunain. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio’r adborth a gânt i wneud gwelliannau i’w gwaith. Mae disgyblion hŷn yn defnyddio meini prawf llwyddiant yn fedrus i nodi cryfderau a meysydd y mae angen iddynt eu gwella. Yn ystod gwersi, mae llawer o athrawon yn defnyddio holi yn effeithiol i gefnogi a herio disgyblion. Mewn ychydig o wersi, mae athrawon yn colli cyfleoedd i ddyfnhau dysgu’r disgyblion a’u herio i

wneud y cynnydd y gallent. O bryd i'w gilydd, mae defnyddio taflenni gwaith yn cyfyngu ar gynnydd disgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau siarad a gwrando cadarn. Maent yn siarad yn rhugl ac yn hyderus gan ddefnyddio geirfa eang. Maent yn gwrando'n astud ac yn cyfrannu'n ystyrlon at drafodaethau dosbarth. Mae disgyblion hŷn yn addasu eu hiaith i weddu i wahanol gyd-destunau a chynulleidfaoedd, gan esbonio'u meddwl yn glir a chyfiawnhau eu barn yn hyderus. Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd difyr i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso'u medrau ysgrifennu mewn ystod o gyd-destunau cynyddol gymhleth, ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn datblygu eu medrau darllen cynnar yn briodol. Maent yn dewis llyfrau yn wirfoddol o'r gornel ddarllen ac yn trafod y cynnwys gydag ymarferwyr. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn rhugl gyda mynegiant, ac yn defnyddio atalnodi i arwain eu darllen. Maent yn dethol ac yn dod o hyd i wybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau, ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i gefnogi eu dysgu yn effeithiol.

Mae athrawon yn cynllunio'n effeithiol i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o gysyniadau mathemategol. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn dda mewn cyd-destunau dilys. Maent yn gwneud penderfyniadau ystyriol am sut i drefnu eu gwaith wrth gynnal ymchwiliadau mathemategol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau digidol yn dda. Mae disgyblion iau yn dysgu trwy weithgareddau fel rhaglennu robotiaid, cofnodi data, a chreu animeiddiadau. Wrth iddynt symud ymlaen, maent yn dod yn fwy annibynnol a medrus, gan gynllunio tasgau, cadw ffeiliau, a chreu cyflwyniadau amlgyfrwng. Mae heriau bywyd go iawn yn cefnogi datblygu a chymhwyso medrau digidol yn bwrpasol. Mae disgyblion hŷn yn defnyddio meddalwedd yn hyderus i ymchwilio, creu graffiau, gwneud cyfrifiadau, a dylunio storïau rhyngweithiol.

Mae staff yn hyrwyddo manteision dysgu Cymraeg yn effeithiol ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos brwdfrydedd dros ddysgu'r iaith. Mae disgyblion iau yn defnyddio gorchmynion a chyfarchion sylfaenol, ac erbyn Blwyddyn 2, mae disgyblion yn defnyddio ymadroddion Cymraeg syml i ddisgrifio'u dysgu. Mae disgyblion hŷn yn dangos y gallant alw geirfa a strwythurau brawddeg i gof yn dda, gan gyfrannu at ddatblygu eu medrau llafaredd yn raddol.

Caiff disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) eu nodi'n gynnar, a darperir cymorth teilwredig i'w helpu i gyflawni eu targedau. Mae athrawon a chynorthwywyr addysgu medrus yn cefnogi disgyblion yn effeithiol, gan eu helpu i wneud cynnydd da tuag at eu targedau dysgu a lles unigol.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref a chyfeiriad strategol cryf ar gyfer gwella'r ysgol. Ar y cyd â'r tîm arweinyddiaeth effeithiol, mae hi'n creu diwylliant cynhwysol lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn, gan ddangos gofal a pharch at ei gilydd. Mae gweledigaeth yr ysgol wedi'i hymgorffori'n dda ac yn weladwy ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol. Ceir ethos tîm cryf ymhlith pob un o'r staff, sy'n credu bod lles disgyblion yn ganolog i bopeth a wnânt ac yn hanfodol i'w llwyddiant. Mae cylch monitro a gwerthuso cadarn, gan gynnwys dewislen effeithiol o ddysgu proffesiynol ar gyfer staff, yn sicrhau bod arweinwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella, gan ganolbwyntio ar ddysgu disgyblion ac ansawdd yr addysgu.

Mae ymgysylltiad rhieni a'r gymuned yn gryfder. Mae'r pennaeth yn cynnal presenoldeb hynod weladwy ac agos-atoch, ac mae digwyddiadau a mentrau'r ysgol wedi llwyddo i gynyddu ymglymiad rhieni. Mae'r ymdeimlad hwn o bartneriaeth yn cael effaith gadarnhaol ar wella presenoldeb ar draws yr ysgol.

Mae llywodraethwyr yn darparu cymorth gwerthfawr, yn meddu ar wybodaeth dda am waith yr ysgol, ac yn cyfrannu'n dda at fywyd yr ysgol. Maent yn casglu tystiolaeth yn uniongyrchol ac yn ei defnyddio i ddwyn yr ysgol i gyfrif yn briodol. Mae arweinwyr a llywodraethwyr yr ysgol yn rheoli cyllid yr ysgol yn effeithiol. Maent yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn bwrpasol i sicrhau bod cyllid yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau disgyblion ac yn sicrhau tegwch.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn peri pryder ac wedi cael eu dwyn i sylw'r awdurdod lleol.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, yn cynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynllluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 26/08/2025